# Cofnodion - Y Pwyllgor Busnes

Lleoliad:

**Tŷ Hywel**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 6 Rhagfyr 2022

Amser: 09.01 - 09.14

# Preifat

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Pwyllgor: | Elin Jones AS, Llywydd (Cadeirydd)<br>Lesley Griffiths AS<br>Siân Gwenllian AS |
| Staff y Pwyllgor: | Graeme Francis (Clerc)<br>Yan Thomas (Dirprwy Glerc) |
| Eraill yn bresennol | David Rees AS, Y Dirprwy Lywydd<br>Manon Antoniazzi, Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd<br>Siwan Davies, Cyfarwyddwr Busnes y Senedd<br>Siân Wilkins, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Phwyllgorau<br>Julian Luke, Pennaeth Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth,<br>Helen Carey, Llywodraeth Cymru<br>Ryan Price, Llywodraeth Cymru |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon.

Croesawodd y Llywydd yr Aelodau i'r cyfarfod. Anfonodd Jane Dodds a Darren Millar eu hymddiheuriadau. Roedd Russell George yn bresennol yn y cyfarfod fel dirprwy.

## 2 Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod blaenorol i'w cyhoeddi.

## 3 Trefn Busnes

### 3.1 Busnes yr wythnos hon

**Dydd Mawrth**

Tynnodd y Trefnydd sylw'r Rheolwyr Busnes at y newidiadau a ganlyn:

- Datganiad gan y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd: Diwygio Bysiau (30 munud)
- Dadl: Cyfnod 4 Bil Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru) (15 munud)

Dywedodd y Llywydd wrth y Rheolwyr Busnes y bydd egwyl fer cyn dechrau trafodion Cyfnod 3, gyda'r gloch yn canu 5 munud cyn ailddechrau.

- Cynhelir y Cyfnod Pleidleisio cyn trafodion Cyfnod 3.
- Nid yw'r Cyfarfod Llawn yn debygol o fynd y tu hwnt i 19:50.

**Dydd Mercher**

- Cwestiynau i Gomisiwn y Senedd (15 ~~30~~ munud)

Dywedodd y Llywydd wrth y Rheolwyr Busnes fod dehongliad Iaith Arwyddion Prydain yn cael ei drefnu ar gyfer dadl Mark Isherwood ar Gynigion Deddfwriaethol Aelodau, gyda'r bwriad y gellir darparu hwn yn fyw ar Senedd.tv.

- Caiff y Cyfnod Pleidleisio ei gynnal cyn y Ddadl Fer.

- Nid yw'r Cyfarfod Llawn yn debygol o fynd y tu hwnt i 18:55.

### 3.2 Amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf

Tynnodd y Trefnydd sylw'r Rheolwyr Busnes at y newidiadau a ganlyn:

**Dydd Mawrth 13 Rhagfyr**

- Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Symiau Taladwy) (Cymru) 2022 (5 munud)

**Dydd Mawrth 10 Ionawr**

- Datganiad gan Weinidog yr Economi: Datblygu Clystyrau Technolegol yng Nghymru – cynhyrchu isotopau radio meddygol ac arbenigedd meddygaeth niwclear (30 munud)

### 3.3 Amserlen busnes y Senedd ar gyfer y tair wythnos nesaf

Cytunodd y Pwyllgor Busnes i'r ychwanegiadau a ganlyn i'r amserlen:

**Dydd Mercher 18 Ionawr 2023 –**

- Dadl ar adroddiad Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith: Dyfodol bysiau a threnau yng Nghymru (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)

## 4 Deddfwriaeth

### 4.1 Llythyr gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd ynghylch Cyfnod 4 Bil Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru)

Yn dilyn yr arwydd a roddwyd yn y cyfarfod blaenorol, nododd y Pwyllgor Busnes y llythyr a'r bwriad i gynnal dadl Cyfnod 4 ar Fil Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru) yn syth ar ôl trafodion Cyfnod 3 heddiw.

### 4.2 Diweddariad ar Femoranda Cydsyniad Deddfwriaethol

Cytunodd y Pwyllgor Busnes ar y canlynol:

- cyfeirio'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Troseddau Economaidd a Thryloywder Corfforaethol a osodwyd ar 29 Tachwedd ar gyfer craffu at Bwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad gyda dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiad ar 2 Mawrth 2023;
- cyfeirio'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol atodol (Memorandwm Rhif 2) ar y Bil Ffyniant Bro ac Adfywio a osodwyd ar 30 Tachwedd ar gyfer craffu at Bwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, gyda dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiad ar 16 Chwefror 2023; a
- chyfeirio'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol atodol (Memorandwm Rhif 3) ar Fil Banc Seilwaith y DU a osodwyd ar 30 Tachwedd ar gyfer craffu at Bwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, y Pwyllgor Cyllid a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad gyda dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiad ar 16 Ionawr 2023.

## 5 Amserlen y Senedd

### 5.1 Dyddiadau'r Toriadau

Cytunodd y Pwyllgor Busnes ar y dyddiadau ar gyfer toriad hanner tymor y Sulgwyn a thoriad yr haf, a chytunodd ar y dyddiadau dros dro ar gyfer hanner tymor yr hydref a thoriad y Nadolig yn 2023.

### 5.2 Trefniadau Cyflwyno yn ystod Toriad y Nadolig

Cytunodd y Pwyllgor Busnes ar drefniadau cyflwyno ar gyfer toriad y Nadolig, gan gynnwys ar gyfer busnes y Cyfarfod Llawn am wythnos gyntaf y tymor, Cwestiynau Ysgrifenedig a gwelliannau i'r Bil Partneriaeth Gymdeithasol (Cymru). Cytunodd y Pwyllgor hefyd ar y trefniadau ar gyfer gosod dogfennau yn ystod cyfnod y Nadolig.

## 6 Diwygio'r Senedd

### 6.1 Trafod yr adroddiad drafft ar argymhellion y Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd

Trafododd y Pwyllgor Busnes yr adroddiad drafft a chytunodd arno, ac iddo gael ei osod a'i ddarparu i Lywodraeth Cymru cyn diwedd y tymor, yn amodol ar ddau ychwanegiad: nodi barn Siân Gwenllian y dylai deddfwriaeth Diwygio'r Senedd gynnwys y teitlau Cymraeg 'Llywydd' a 'Dirprwy Lywydd' yn unig; a, nodi barn y Llywydd y dylid pennu uchafswm cynyddol o Weinidogion Cymru yn 16.